

VOX PICTURES



Un Bore Mercher

pennod gan

Pip Broughton

CYFRES DAU, PENNOD TRI

Cyfres a grëwyd gan Matthew Hall

Cyfieithu Gan Anwen Huws

© Vox Pictures Ltd.
59 Mount Stuart Square, Cardiff, CF10 5LR
T: +44 (0)2921 303 335

CATCH UP:

FAITH calls after DYFAN as he drives off across the field on his quadbike, tears streaming down his face.

In the prison DI BREEZE: I can't help thinking you're playing games with me, Evan. The Met want the Reardons and you promised me Gael.

In Faith's study, ALYS: Ti dal yn caru Dad? FAITH hesitates and replies. Odw ... Odw, fi'n caru fe.

In the prison, FAITH thanks EVAN for the text. Evan, puzzled, Tecst? Faith: Ocei, te. Welai di, cariad.

GAEL: You'll get a message with instructions. Delivery tomorrow. FAITH I'm in a murder trial. GAEL Tough.

In the courtroom, FAITH, gowned up. TOM: S'mo fe'n fater o ddyfaru. On i'n 'neud 'yn jobyn. FAITH: Ie - yn cwato'r gwir. Swno fel bo' ti'n dda iawn yn dy jobyn.

In the cell MADLEN: O'dd llunie yn y post. Ffotograffs. FAITH: All neb, neb ffindo mas am y llunie 'na.

In the prison, EVAN grabs FAITH's wrists and she cries out in pain.

STEVE sets a light to the wastepaper basket in Gael's office

EVAN is delivered to GAEL by stealth at night. She opens the door in her silk nightie.

BREEZE turns up at FAITH's house with the Rolex. 'Yours?'

INT. FAITH'S SHED. DAWN

FAITH punches the bag. Sweat streaming, vest and shorts. Focused.

Beyond the open door, dawn is breaking.

EXT. FAITH'S HOUSE. VERANDA - DAWN

FAITH comes out of her shed, towelling down, stops a moment as she looks out into the darkness. An animal breathing, waiting for the day.

INT. TY MELIN. DYFAN'S BEDROOM - EARLY MORNING

HANNAH comes in, dressing gown, no makeup.

HANNAH
Wy 'di stilo'r crys-T. Co ti.

She puts a glass of milk down next to his bedside table and realises that the bed is empty.

HANNAH (CONT'D)
Shit.

She squints out of the window down into the yard.

INT. FAITH'S HOUSE. BATHROOM - EARLY MORNING

The bathroom is steamy from FAITH's recent shower.

Faith pulls up her suit skirt, as she speaks into her phone pressed to her ear,

FAITH
Llynca ddigon o goffi cyn y
briefing. A fi ddim 'di newid
meddwl fi. So Madlen yn mynd i
dystio.

INT. CERY'S FLAT - EARLY MORNING

CERY'S holds her phone to her ear as she moves around her disrupted bedroom looking at a sleeping figure under the duvet wondering how the hell did that happen? CERY'S gives her a nudge. The body doesn't stir.

CERY'S
Ti'n siwr?

INT. FAITH'S HOUSE. FAITH'S BATHROOM - EARLY MORNING

She runs the cold tap and takes a handful of water, then presses toothpaste onto her toothbrush.

FAITH
Ar ôl ddo'? Ma' fe'n gofyn gormod,
Cerys. Bydd Swancott 'di blasu
gwa'd.

MEGAN (V.O.)
Mam, mam!

FAITH
Goffod mynd. Gweld ti am naw.

FAITH turns to see MEGAN standing in her nightie.

FAITH (CONT'D)
(brushing her teeth)
Ti'n ocei, Megs?

MEGAN
Ma' Rhodri'n llefen. Y rash 'na
'to.

INT. FAITH'S HOUSE. ALYS' ROOM - EARLY MORNING

FAITH barrels into ALYS' bedroom, carrying a grizzly RHODRI.

ALYS is on FaceTime to ANGIE and playing music.

ALYS
Hei!

FAITH
'Da pwy ti'n siarad?

ALYS
Mam, be' ti'n 'neud...

FAITH
Fi angen ti godi, plîs.

FAITH switches the main light on.

ALYS
Hei !

FAITH
Ocei, fi'n goffod mynd â Rhodri i'r
sbyty, ma' Arthur yn dod draw a
plîs Alys, na'n siwr bo' ffôn ti
MLAN!

FAITH has gone. ALYS goes back to Angie on FaceTime.

ALYS
Ma' shit gatre wastad yn sorto'i
hunan mas. Yn y pendraw. Jyst
cadwa'n gryf.

ANGIE's tough face on the screen, in her bed.

ANGIE
Unweth 'to.

INT. CERY'S BATHROOM - DAY

CERY'S, at the bathroom mirror, covering up love bites with cover foundation.

FAITH (V.O.)
Cerys, fi angen ti ofyn am
adjournment. Fi'n goffod mynd â
Rhodri i A&E. A fi angen ti ffindo
mas pa medd ma' Madlen yn gymryd.

CERY'S
Beth?

INT./EXT. FAITH'S CAR / COAST ROAD - MORNING

FAITH talks hands free. RHODRI grizzles unhappily in the back seat.

FAITH
Os neith hi stopo cymryd nhw, falle
bydd hi'n crynu mwy. Ennill y
sympathy vote 'da'r rheithgor.

CERY'S
(with a very thick voice)
Sa i'n credu hyn.

FAITH
Ond tria gadw hi'n cwl. C'mon, all i
di 'neud hyn Cerys.

She checks RHODRI in the driving mirror and turns up his animal music.

INT. CERY'S BATHROOM - MORNING

CERY'S is staring at herself in the mirror.

Behind her ANYA comes into the bathroom, looking bleary and totally wrecked.

ANYA
O, Sori.

CERY'S
Ma'n olreit, wy 'di cwpla. Cer di.

Avoiding all eye contact, CERY'S awkwardly leaves.

EXT. COAST ROAD - MORNING

Faith's car steams along the coast road.

OMMITTED

INT. COURT CUSTODY AREA. INTERVIEW ROOM - MORNING

CERYs, hungover, sits at a desk opposite MADLEN.

Despite her physical frailty, MADLEN has a composure and air of resolve that even through her hangover CERYs can't help but be surprised by.

CERYs

Ma' Mrs Howells yn itha' pendant na ddyle chi dystio.

MADLEN

Os nagw i'n tystio byddan nhw'n meddwl bo' 'da fi rwbeth i gwato.

CERYs makes a 'dumb' face - am I missing something here?

MADLEN (CONT'D)

Sa i'n mynd i sôn 'bytu'r ffotograffs, odw i? Wy'n dyfaru codi'r peth!

CERYs

Nethoch chi godi'r peth achos bo' chi dan bwyse, Madlen. A credwch chi fi, fyddwch chi dan lot mwy o bwyse yn y llys.

MADLEN looks down and plays with the cotton wristband round her wrist.

CERYs (CONT'D)

Madlen, gwrandewch, bydd pawb yn y llys 'na'n dishgwyl arno chi. Byddwch chi'm yn gallu meddwl yn stret. Ma' Faith yn siarad o brofiad. Deunaw mish yn ôl, chi'n cofio pan nethon nhw drial cymryd ei phlant hi?

This seems to land with MADLEN, who nods.

CERYs (CONT'D)

Ma' pobol di-euog yn cael eu cyhuddo o bethe, Madlen.

(MORE)

CERYS (CONT'D)

Ma' fe'i gyd am brofi amheuaeth
rhesymol. Ma' Faith 'di 'neud y
penderfyniad am reswm. I'ch
amddiffyn chi.
(clutching MADLEN's shaking hands)
'Dy chi ddim yn ddigon cryf,
Madlen. Galle'ch iechyd chi
ddirywio a -

MADLEN

(determinedly)

Wy'n mynd i dystio a na i ddim sôn
am y ffotograffs.

CERYS

Allwch chi ddim - DDIM - crybwyll y
llunie. O leia so'r erlyniad yn
gwbod amdany'n nhw, ni'n saff yn
hynny o beth.

She takes a breather, collects herself.

CERYS (CONT'D)

Gwrandewch. A plîs, ma' hyn mor
bwysig. Achos bo' chi 'di gweud
'tho ni am y llunie, alla i ddim
gofyn unrhywbeth neith 'ych arwen
chi i weud celwydd dan lw. Beth ni
angen 'i wneud yw ffindo amheuon
rhwle arall yn yr achos. Chi'n
dyall? Ma'n rhaid i ni gyd fod yn
gryf. Er lles Dyfan. Er mwyn i chi
ga'l mynd adref i'r fferm neu fe
fydd Dyfan yn mynd i'r sustem gofal
plant. Ocei?

MADLEN

Ocei.

EXT. ABERCORRAN HIGH STREET - MORNING

PC WILLIAMS is directing traffic round a broken down tractor
on the high street. A call comes in over the police radio.

POLICE RADIO

Dyn ifanc, yn gwisgo bomber jacket
coch. Dim arwydd o drais. Dim
cofnod deintyddol. Gwyn, Caucasian.
O bosib efo gwreiddiau yn Nwyrain
Ewrop. Ma'r llunie wedi cael eu
hala i'r holl swyddfeydd yn y
dalgyrch. Ma'r wasg 'di codi'r
stori felly rhannwch yr wybodaeth.

WILLIAMS sniffs with the excitement of a new case as she waves the traffic past.

OMMITTED

INT. HOSPITAL. A&E. CUBICLE - DAY

FAITH whispers urgently into her phone.

FAITH

Beth wedodd e wrth gymryd y watch?
Ot ti dan caution neu ...? Be'n
gwmws wedodd e? Ges di 'i enw fe?

A NURSE pops her head round the curtain.

NURSE

Jyst yn aros am y profion gwa'd,
Mrs Howells, flin 'da fi bo' chi
'di goffod aros.

FAITH

Diolch, dim problem.

The NURSE comes to coo over RHODRI. FAITH terminates the call with her thumb and smiles manically at the NURSE.

INT. COURT ROOM - DAY

The full court has convened. CERYS is on her feet before JUDGE DANIELS.

CERYS

Falle y gallen ni oedi'r achos am
awr, F'Arglwydd, hyd nes i'r
sefyllfa fod yn gliriach.

SWANCOTT

(rising impatiently)

Go brin y bydd tystiolaeth
Detective Inspector Breeze yn
ddadleuol. Gaf fi awgrymu'n garedig
ein bod hi'n gwrandio arno fe tra
bo' Mrs Howells yn datrys ei
threfniadau domestig?

JUDGE DANIELS

Miss Jones, chi yw'r is-
gynrychiolydd wedyn does dim rheswm
pam na allwch chi barhau. Newn ni
gario mlaen.

CERYS sits, stinging from the 'junior' references. She glances back at MADLEN, who appears to be in a daze.

EXT. STEVE'S PICK-UP - DAY

STEVE turns into the haulage depot, his expression falls with surprise.

EXT. REARDON'S HAULAGE DEPOT - DAY

STEVE's truck drives into the yard and parks up. STEVE climbs out from his cab, unsettled.

Two WORKHANDS are carrying some pieces of charred furniture out of the building.

GAEL stands with a man STEVE doesn't recognise. A big man who owns the space around him. SHANE REARDON.

SHANE

Trying to hide evidence before I arrive. There could have been a cheaper way.

GAEL doesn't dignify this with a reply.

GAEL

(motioning him over)

Steve.

STEVE goes to meet them.

GAEL (CONT'D)

This is Paddy's brother, Shane.
Welsh born-and-bred, just like you.
(to SHANE)
Steve Baldini. Driver and Chief
Warehouseman.

SHANE

(extending his hand and
looking him dead in the
eye, speaking in Welsh)
Neis cwrdda ti. Dwi'n clywad bo' ti
'di 'neud dipyn o argraff yn barod

GAEL

(snapping)

Steve, you're good with electrics,
I want you to check the whole
office system over.

STEVE
What happened?

SHANE
(looking deep into STEVE)
A clumsy attempt by my sister in
law to destroy the office systems.

GAEL barks from the stairs

GAEL
Steve!

SHANE
Nice to meet you.

SHANE slaps STEVE on the back in a territorial way.

EXT. COURT BUILDING - DAY

ARTHUR and FAITH do the RHODRI handover by a bench outside
the court building.

FAITH
Ma' fe'n iawn.

ARTHUR
Allen i 'di mynd ag e, Faith.

FAITH
O'dd raid fi fod yn siwr.

FAITH hands over RHODRI and his buggy and bag to ARTHUR as
they continue their conversation.

ARTHUR
O bwy bellter gath e'i saethu?
Vaughan?

FAITH
Beth?

ARTHUR
Y post mortem. Pwy bellter.

FAITH
Pedwar deg tro'dfedd.

ARTHUR
Sawl shot?

FAITH
 Dou. Yn y chest. Pum modfedd o'i
 gilydd. Pam?

She kisses RHODRI.

FAITH (CONT'D)
 Fi'n cachu'n hunan, Arthur.

ARTHUR
 Cer!

INT. COURT BUILDING. ROBINING ROOM - DAY

FAITH robes up, wiping sweat from her upper lip.

FAITH
 Bydd Rhodri'n iawn a ma' Madlen yn
 ddi-euog.

INT. COURT BUILDING. MAIN CORRIDOR - DAY

FAITH runs towards the court room, her gown billowing behind her. As she goes through a door, her robe snags on the door handle and rips.

INT. COURT ROOM - DAY

FAITH comes in through the back courtroom doors and her face drops. MADLEN is in the witness box.

CERYs is obviously very nervous, ill prepared for having to do the examination herself.

CERYs
 O's plant 'da chi?

MADLEN
 O's, un mab, Dyfan. Ma' fe'n ddeg,
 newydd ga'l 'i benblwydd. Llicen i
 fod wedi bod 'na. On ni 'di bwriadu
 mynd ag e i wyllo'r dolffinied. Ond
 ...

FAITH can't believe it as she walks through the court.

CERYs
 Chi'n 'neud lot 'da'ch gilydd? Fel
 teulu?

MADLEN

Dyfan a fi, gan fwya'. Ni'n agos
iawn. A ma' fe 'di bod yn gefen
mowr i fi ers i fi fod yn dost.

FAITH speaks as she takes her place next to CERYs.

FAITH

F'Arglwydd, nes i gais am oediad?
Nes bo' fi nôl.

JUDGE DANIELS

O'dd 'ych cleient yn awyddus iawn i
ddechre tystio.

FAITH glances at CERYs who nods confirmation.

FAITH

Garia i mla'n, te.

CERYs sits, humiliated. FAITH tries to maintain control.

She catches BREEZE's eye. She takes an intake of breath,
wipes her upper lip and smiles warmly at MADLEN.

FAITH (CONT'D)

Mrs Vaughan, beth yw diddordebau
Dyfan?

MADLEN refuses to make eye contact with FAITH.

MADLEN

Maths, rhife. Ma' fe bell ar y
bla'n i fi. Fel 'na ma'i feddwl e'n
gwitho.

FAITH

(encouragingly, but
drowning)

Gosh ...

MADLEN

A'r fferm, y cwad, chi'n gwbod ...
A blode. Ma'r ddou ohono ni 'di
bo'n plannu blode prin. Yn ddweddar
blannon ni Cyclamen, un porffor
pert.

FAITH beams with warmth.

CERYs feels crucified. This is not going well.

JUMP CUT TO:

MADLEN (CONT'D)

(now very upset and shaky)

On i'n gweiddi, galw'i enw fe. Ond
o'dd dim ateb. O'dd y gwn ar y
llawr, sy' ddim yn 'neud sens.
Felly godes i fe a'i ddodi fe'n yn
y Land Rover. (breaking down)

FAITH

(earnest and sympathetic)

'Sdim hast, Mrs Vaughan, ni angen
deall yn union beth ddigwyddodd.

MADLEN

Wedodd Dyfan bo' fe'n od. O'dd 'i
Dad e byth yn gadel pethe'n gorwedd
ymbythu, o'dd e'n ofalus iawn am
... Wedodd Dyfan wrtho i fynd nôl
i'r ty tra bo' fe'n mynd i whileo
amdano fe ar y cwad. Flin 'da fi
... alla i ishte am funed?

JUDGE DANIELS

Aelodau'r rheithgor cymerwch
seibiant - nôl am ddau os gwelwch
yn dda.

FAITH

Diolch F'Arglwydd.

INT. COURT CUSTODY AREA. CORRIDOR - DAY

FAITH and CERYs march along away from the court.

FAITH

O'dd dim hawl 'da ti! So hi mewn
unryw stad i ... newn nhw rhacso
hi, Cerys.

CERYs

Nes i gynhori hi i bido - gweud
wrthi bido. Hi o'dd yn mynnu sefyll
yn y bocs. O ti ddim yna. 'o ni
methu gwneud dim mwy.

FAITH

Shgwla'r golwg arno ti! Fi'n synnu
bo' ti'n gallu meddwl yn streit.
Fi'n meddwi'n sefyll wrth dy ochor
di. Ti'n bastad shambyls!

CERYS

Paid pigo arno i, Faith! So ti'n
mynd i ga'l pigo arno i bob tro
ti'n ca'l domestic. Dylen i byth
'di cytuno i witho i firm deuluol.
Ma' nhw'i gyd mor fucked up.

FAITH's phone rings as turn the corner of the corridor.

Gael (V.O.)

Who is this other interested party
in Corran Energy? How long does -

FAITH

I'm still at court at the -

Gael (V.O.)

How close to a verdict are you?

FAITH

You know I can't discuss that.

CERYS studies FAITH as they go into the Ladies.

INT. GAEL'S OFFICE - DAY

FAITH (V.O.)

I'll call you later.

Gael puts her feet up on her desk.

Gael

I've just had that jeweller on the
phone. It seems the Rolex was taken
as evidence. But more to the point,
how stupid are you to let yourself
be followed.

FAITH (V.O.)

I'll see to it.

INT. COURT BUILDING. LADIES TOILET - DAY

FAITH switches off her phone and stands trying to hide her
rising panic from CERYS, who checks the cubicles are
unoccupied.

CERYS

Ot ti'm yn agos i unrhyw ysbyty, ot
ti? Ot ti 'da Gael 'to, nagot ti?

FAITH

Beth?

CERYS

Ti 'di bod yn diflannu i fod yn gi
bach iddi hi, ac achos bo' shwt
gwilydd 'da ti, ti'n iwso dy blant
fel esgus a wedyn ti'n grac achos
bo' ti'n casau dy hunan.

FAITH pauses for thought. Then breaks into a smile. Sighs.

FAITH

Ocei, yn gyntaf, fi'n sori bo' fi
'di siarad 'da ti fel'na.

CERYS

Diolch.

FAITH

Yn ail, o'dd Rhodri YN sbyty gyda
suspected meningitis a fydda i
WASTAD yn rhoi mhlant i gyntaf.

CERYS

Wedyn, wy'n ymddiheuro. Ac yn
drydydd?

FAITH

Ma' Gael DAL yn pwysu arno i.

She holds up her phone.

CERYS

On i'n gwbod -

FAITH

A wy ffaelu AROS i ga'l TORRI'N
rhydd o'i shit hi ... 'Shgwyl, os
alla i gwpla dêl Corran Energy 'da
pris sy'n plesio hi, yna -

She is suddenly overwhelmed by unexpected wave of emotion.

FAITH (CONT'D)

Fydda i'n rhydd.

She pulls herself back.

FAITH (CONT'D)

Ddo'. Wedes i gelwydd wrtho ti. On
i ar neges i Gael, ond heddi,
Cerys, on i yn yr ysbyty 'da
Rhodri.

CERYS looks at her to test if it is the truth. Then leaves.

CERYS

Wy'n mynd i ga'l awyr iach.

FAITH

A mouthwash.

FAITH goes into a cubicle and closes the door. Leans against
the door, trying to pull herself together.

Footsteps of heels on the floor.

HANNAH (V.O.)

A bydden i'n awgrymu bo' chi'n
cysylltu 'da'r bobol maethu a
mabwysiadu i ddachre ar y gwaith
papur i Dyfan. Man y man i ni
ddachre arni, ni gyd yn gwbod beth
fydd y ddyfarniad.

FAITH flushes the toilet and comes out of her cubicle. She
moves over to the washbasins.

HANNAH

Ie, ffona i di'n hwyrach.

FAITH watches HANNAH in the mirror guiltily put her phone
away.

END OF PART ONE

EXT. HOWELLS. HIGH STREET - DAY

TOM is striding into the office main entrance, when he is
stopped by PC WILLIAMS.

PC WILLIAMS

Halodd Wil Vaughan bron i bum
mlynedd yn ffaelu ca'l caniatad i
adeiladu tai ar y ca' deg erw. Ma'n
rhaid bo' chi'n gyfarwydd â'r
many lion Mr Howells, y rhai mwya'
dweddar, er bydden i'n meddwl taw
Evan nath ddelio 'da'r rhai
cynhara'?

TOM nods defensively.

PC WILLIAMS (CONT'D)
Unryw syniad pw y o'dd yn
gwrthwynebu?

TOM
Bach o fendeta 'da'r Parks drws
nesa'. Wil druan.

PC WILLIAMS
Allen i ga'l pip ar y ffeils, Tom?

TOM is visibly uneasy about this.

TOM
O's 'da chi orchymun?

PC WILLIAMS stares him out.

TOM (CONT'D)
Wedyn wy'n synnu ato chi Susan. Ma'
gyda nghleient i hawl i'w
gyfrinachedd o hyd, er bo' fe 'di
marw.

A ghastly uncomfortable family impasse.

TOM (CONT'D)
Gymroch chi sbel i sortio'r tractor
'na mas, dofe?

And he's gone. PC WILLIAMS is left standing on the high street.

INT. COURT ROOM - DAY

SWANCOTT
Pryd o'dd y tro olaf i chi weld
'ych gwr y diwrnod yna, Mrs
Vaughan? A byddwch mor fanwl â
phosib, os gwelwch yn dda.

MADLEN
Hanner awr 'di deuddeg.

SWANCOTT
Tua amser y 'gweryl' o'ch chi'n sôn
amdani hi. Rhywbeth sy'n ddigon
arferol ar iard fferm?

MADLEN
Ie.

SWANCOTT

'Pwy yw hi?' Dyna'r geirïe glywodd
Mr Madog Jones chi'n eu yngan.
'Hi'. Ydi hynny'n sgwrs arferol ar
iard fferm? Oeddech chi - efallai -
wedi derbyn tystiolaeth fod eich
gwr yn cynnal perthynas 'da menyw
arall?

MADLEN is silent. It's the helpless, trapped silence of
admission.

SWANCOTT casts FAITH an apologetic glance that says, 'Wedes i
dofe?'.

FAITH shoots to her feet.

FAITH

(jumping up in protest)
F'Arglwydd, all Mr Swancott ddim
arwain y tyst.

JUDGE DANIELS

Cariwch ymlaen, cwnsel.

CERYS pulls at FAITH's jacket for her to sit.

MADLEN shoots a panicked, pleading glance at FAITH, who is
powerless to help.

SWANCOTT

'Pwy yw hi?' Wnaethoch chi holi'r
cwestiwn hwn ar unrhyw achlysur
arall?

MADLEN maintains her silence.

SWANCOTT (CONT'D)

... Pam holi hyn ar y diwrnod yma'n
benodol? Beth ddigwyddodd, Mrs
Vaughan? Yn y munudau tyngedfenol
yna cyn gofyn y cwestiwn hwnnw?

FAITH

(under her breath)
Be' ffyc?

JUDGE DANIELS

Mae angen i chi ateb y cwestiwn
Mrs. Vaughan.

SWANCOTT

Falle i chi dderbyn galwad ffôn?
Neu rwbeth drwy'r post?

(MORE)

SWANCOTT (CONT'D)
 Dyna'r amser arferol i'r post
 gyrraedd, nage fe?

FAITH
 (under her breath)
 Shw' ma' nhw'n gwbod?

SWANCOTT
 Faint o'r gloch mae'r fan post yn
 galw fel arfer? O'dd rhywbeth wedi
 cyrraedd yn y post wnaeth eich
 cynhyrfu chi? Eich cythruddo chi
 efalle?

MADLEN stares with panic at FAITH.

MADLEN
 Glywes i e ar y ffôn, yn ca'l sgwrs
 bersonol. Yn y sgubor. Benderfynes
 'i herio fe.

SWANCOTT
 'I herio fe ar beth yn benodol, Mrs
 Vaughan?

MADLEN hesitates.

CERYS
 (under her breath)
 Na, na, na.

SWANCOTT
 Pa fath o sgwrs bersonol o'dd e'n
 'i chynnal yn y 'sgubor?

MADLEN holds her silence.

SWANCOTT (CONT'D)
 O'dd 'ych gwr yn ca'l affêr?

SWANCOTT lets the question hang in the air. Makes eye contact with the JURY.

MADLEN plays with her wristband as she speaks. It seems to give her strength.

MADLEN
 Shwt all unrywun fod yn siwr? Shwt
 allwch chi'm bod yn siwr bo'ch
 gwraig CHI ddim yn ca'l affêr?

JUDGE DANIELS
 Mae angen i chi ateb y cwestiwn.

MADLEN

Chi'n byw 'da rhywun a chi'n
trystio nhw ac un dwrnod. Pfft.
Chi'n siwr bo'ch gwraig chi'n
ffyddlon i chi?

JUDGE DANIELS

Mrs Vaughan! Bydd rhaid i fi'ch
rhybuddio chi.

JUDGE DANIELS shakes his head at FAITH. FAITH stings. CERYs
glowers.

SWANCOTT

A oedd eich gwr yn ca'l affêr? Mae
o'n gwestiwn digon syml. Oedd eich
gwr yn ca'l affêr?

FAITH lowers her head in empathy. DI BREEZE who has been
studying FAITH throughout, clocks this and smiles.

SWANCOTT (CONT'D)

O'r gorau, fe wna i bethau'n haws i
chi. Oeddech chi'n meddwl neu'n
amau fod eich gwr yn ca'l affêr?

MADLEN

O'n.

CERYs

(under her breath)
Shit.

SWANCOTT

O'r diwedd. Fe fyddai hynny'n
egluro'r gweiddi 'Pwy yw hi?' ar
fore'r llofruddiaeth. Sut fath o
ddyn o'dd 'ych gwr chi, Mrs
Vaughan?

MADLEN

(now very upset)

Dyn o'dd 'di ca'l siom. Mewn bywyd.
Ynddo i. O'dd e'n teimlo bo' fi 'di
adel e lawr. Bo'n salwch i 'di adel
e lawr. Ond fel'na o'dd hi. Wastad
wedi bod mor belled â wy'n gallu
cofio, wedyn pam 'dden i'n 'i ladd
e nawr? A 'sen i'n mynd i'w ladd
e, 'dden i byth 'di iwso gwn. Gas
'da fi'r peth. Ma' lot o briodase'n
anhapus. Ond so pawb yn mynd o
gwmpas yn lladd 'i gilydd, o'dyn
nhw?

FAITH and CERYs stare at their papers.

SWANCOTT

Felly beth fydddech chi wedi ei ddefnyddio, Mrs Vaughan, i ladd eich gwr?

FAITH

F'Arglwydd, ma' fe'n arwain y tyst unweth 'to.

JUDGE DANIELS

Mr Swancott ma'n rhaid i ni gadw at y ffeithiau moel.

SWANCOTT gives a rhetorical shrug to the MEMBERS OF THE JURY.

The damage has been done.

SWANCOTT

(triumphant)

Does gen i ddim mwy o gwestiynnau F'Arglwydd.

JUDGE DANIELS

Mrs Howells, ydych chi am holi'r tyst drachefn?

FAITH sits, frozen.

CERYs

(under her breath, to

FAITH)

Ma'r gath mas o'r cwd. Ti ffaeludodi hi nôl miwn, Faith.

SWANCOTT throws BREEZE a nod of victory.

JUDGE DANIELS

Mrs Howells?

CERYs

Paid 'neud pethe'n wa'th.

Slowly FAITH stands.

FAITH

Doedd eich gwr ddim yn hoft iawn o'i chwaer Hannah?

JUDGE DANIELS

Mrs Howells?

FAITH

Mater o gywirdeb cyfreithiol,
F'Arglwydd. Madlen, beth ti'n gwbod
am sefyllfa ariannol y teulu?

MADLEN

On i'n gwbod bo' ni mewn dyled.
Dyled fowr. 'Na pam bo'i hwyllie fe
'di mynd mor dywyll. O'dd y fferm
'di bod yn 'i deulu fe am wech
cenhedleth ac o'dd e'n timlo'n ...
gyfrifol.

FAITH

Felly dy fab di, Dyfan, yw'r unig
etifedd i'r fferm.

MADLEN shakes her head.

MADLEN

A'n whar-yng-nghyfreth i Hannah.

FAITH

A pwy fydde'n gofalu'n gyfreithlon
am Dyfan 'se rwbeth yn digwydd i
ti?

MADLEN

Hannah.

FAITH

Felly hi a'i gwr fyddai'n berchen
ar y fferm yn ôl y gyfreth?

MADLEN

Ie.

FAITH sits down staring defiantly at SWANCOTT.

INT. COURT ROOM - DAY

THE JURY listen attentively.

SWANCOTT

'Pwy yw hi?'. Sut yn y byd all fod
yna unrhyw amheuaeth rhesymol am
bwy oedd yn euog o'r llofruddiaeth
treisgar a chiaidd. Un sy'n deillio
o genfigen a dialedd.

JUMP CUT TO:

FAITH

Dyw'r erlyniad heb gyflwyno unrhyw dystioleth fforensig sy'n profi bod hi'n euog. Dim tyst i'r drosedd "honedig". Dim ond ymgais chwerthinllyd i drïo lladd ar ei chymeriad hi ond edrychwch arni hi. 'Dych chi'n gweld llofrudd yn ishte fyn hyn? Fi'n gweld menyw sydd wedi cael cam. Mam gariadus, gwraig gariadus.

JUMP CUT TO:

JUDGE DANIELS

Er nad oes yna un darn o dystiolaeth sy'n profi euogrwydd, mae'r olion bysedd yn dystiolaeth amgylchiadol am ei bod hi'n byw dan yr un to â'r gwn yn ddyddiol. Er hynny, fe fyddai'n bosib i chi ddod i'r casgliad fod yr holl dystiolaeth gyda'i gilydd yn brawf tu hwnt i amheuaeth rhesymol o euogrwydd.

INT. COURT ROOM - DAY

SWANCOTT is packing away his files as FAITH confronts him.

FAITH

'Da pwy ti 'di bo'n siarad?

SWANCOTT

Dwn i ddim pam 'da chi'n 'neud gymaint o ffys, Mrs Howells. Doedd dim dystiolaeth, felly doedd dim angen gwneud datguddiad.

FAITH is ready to punch him, but keeps it zipped.

SWANCOTT (CONT'D)

Dylech chi byth fod wedi caniatáu i'r amddiffynydd dystio. Manna o'r nef, Faith. Falle dylech chi fod wedi derbyn 'y nghynnig i. Pum mlynedd am ddynladdiad.

SWANCOTT leaves.

FAITH crosses to her defence bench, scrolling through her phone. Several missed calls from 'STEVE'.

BREEZE approaches.

FAITH scans the courtroom to see if they can be heard. The whole conversation continues in whispers.

D.I. BREEZE

Quite a perky performance you put in there, I can see what Evan was attracted too.

FAITH keeps her eyes down.

D.I. BREEZE (CONT'D)

I had a chat with Evan, an update, 'state of play' sort of chat.

FAITH

When?

D.I. BREEZE

Couple of days ago? A few things from his case are still 'niggling' me. Don't feel quite resolved.

FAITH lets this land, has a think, then turns to look at him.

FAITH

I'm not sure I'm entirely understanding what you are saying.

D.I. BREEZE comes in close.

D.I. BREEZE

Why did Evan plead guilty to the charges without implicating Mrs Reardon. Strikes me.... as an outsider that is, that you're left running around doing quite a bit of mopping up?..... Were they having an affair, Evan and Gael, is that it?

FAITH

What makes you think that?

D.I. BREEZE

I was watching you, Faith. You betrayed yourself.

She looks him in the eye.

He waits, but she decides she has nothing to say. Picks up her papers and leaves in silence.

INT. COURT CUSTODY AREA. INTERVIEW ROOM - DAY

FAITH and CERYs on their feet, caged and raging.

FAITH
Wedodd Madlen bo' hi 'di llosgi'r
llunie, fel bo' neb yn gallu ffindo
nhw. Ma' rwbeth yn drewi. Sa i'n
trysto Breeze.

MADLEN is brought in, uncuffed, and helped into the chair
opposite FAITH.

FAITH and CERYs try to calm down.

MADLEN
Wy dal i gredu bo' fi 'di 'neud y
peth iawn. O'dd rhaid i fi ga'l y
cyfle i amddiffyn 'yn hunan.

CERYs checks that FAITH has heard that.

MADLEN (CONT'D)
Wy'n starfo.

FAITH
'Da fi rice cakes a Frube yn y bag
tu fas.

CERYs
Af fi drïo'n lwc 'da'r guards.

FAITH
Cerys! Ma' lle ac amser i bopeth!

CERYs
Bwyd!

FAITH
Sori.

CERYs bangs on the door and is let out.

MADLEN
(accusingly)
Lle o' ti bore 'ma, Faith?

FAITH feels the sting on blame.

FAITH
Fi'n sori, Madlen, o'dd raid fi
fynd â Rhodri i'r ysbyty.

MADLEN goes in on herself.

FAITH (CONT'D)
O'dd dim rhaid i ti roi dy hun drw'
hwnna heddiw.

MADLEN
Wy'n ddi-euog. Faith. Nes i ddim
lladd Wil.

FAITH
Wy'n dy gredu di. A ma' chance 'da
ni. God, lichen 'sen i'n smoco.

INT. OPEN PRISON. RECEPTION AREA - DAY

TOM shows his ID. Is patted down by a PRISON OFFICER.

EXT. OPEN PRISON. VISITOR'S ROOM - DAY

TOM and EVAN sit at a table, surrounded by the hubub of visits.

TOM gets out an envelope and pulls out the paperwork.

EVAN
Beth yw hwn?

TOM
Llwyddes i ga'l tam bach o
wybodaeth am dy dad biolegol. On
i'n 'i led-adnabod e. Ma'n rhaid
bo' ti'n gwbod bo' ti'n debyg iddo
fe.

EVAN looks down at the paperwork.

TOM (CONT'D)
Hwnna yw, urm, adroddiad y crwner.
Ar gyfer marwolaeth Alec. Alec
Fenton. 'Marwolaeth drwy Foddi'.
'Anffawd' yw'r canlyniad swyddogol
Evan.

EVAN stares at the photocopy on the piece of paper.

TOM tries to hold it together as he continues.

TOM (CONT'D)
S'neb yn dy feio di. Wna inne'm dy
ganiatau di i feio dy hunan whaith.
Ot ti'n wyth.

EVAN chokes back the tears.

EVAN

Ma' fe 'di gadel 'i ôl arna i, Dad.
Fel craith. Bob dydd wy'n brwydro
'da'r cywilydd ... a'r dicter. Ond
o leia' tu ôl i'r walie hyn, sa i'n
goffod 'i gwato fe rhag Faith a'r
plant.

A pause in this quiet, tender scene between.

TOM leans over and puts his hand of EVAN's shoulder. He
smiles a reassuring, strengthening smile

Evan breaks down. Overwhelmed with grief and shame.

TOM

Wy'n meddwl bo' hi'n amser. I ni
wynebu pethe. Archwilio'r gwir.
Nage fi yw dy dad genetic, sori
biolegol, ond fe fydda i'n dy garu
di fel mab, tra bydda i byw. Alla
i'm gweud 'tho ti faint wy'n dy
golli di, Evan. 'Nenwedig yn y
swyddfa 'na, ma' gormod o fenywod
ar hyd lle!

TOM smiles, trying to make light of it, but fails.

TOM (CONT'D)

Ma' angen i fi gywiro pethe
rwffordd. Sa i'n gwadu mod i dala'i
cha'l hi'n anodd dod i delere 'da
rhai o'r pethe wnes ti, ond wy
hefyd yn dyall - ac yn
gwerthfawrogi - y pwyse ot ti dano.
A wy'n beio'n hunan.

EVAN

Dad, pidwch ...

TOM

Nes i ymddeol yn rhy gynnar. Nagot
ti'n barod ... a chyda bod Faith ar
famoleth ... Y peth dwetha' wy moyn
yw gweld y teulu'n whalu, felly
wy'n rhoi cynnig ar ... uno ni,
mewn harmoni, fel petai.

TOM smiles through his tears.

EXT. REARDON'S HAULAGE DEPOT - DAY

STEVE drives a forklift truck, loading a lorry.

SHANE surges angrily out of the office door and gets into his car.

STEVE observes him drive off at speed.

INT. GAEL'S OFFICE - DAY

GAEL stands in front of the television screen.

TV NEWSCASTER

